



CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG YN SIR GAERFYRDDIN

RHWNG

CYNRYCHIOLWYR LLYWODRAETH LEOL A'R LLYWODRAETH
GANOLOG, Y BWRDD IECHYD LLEOL, YR HEDDLU, ASiantaeth YR
AMGYLCHEDD, Y GWASANAETH TÂN AC ACHUB, Y SECTORAU
ELUSENNOL A GWIRFODDOL, BUSNESAU, ADDYSG UWCH AC ADDYSG
BELLACH, LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTRIDIG A
CHYMUNED SIFIL SIR GAERFYRDDIN

A

CHYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YN SIR GAERFYRDDIN

Yr ydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn cytuno i weithio ac i weithredu gyda'n gilydd i anrhydeddu Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog.

CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG

 ARGLWYDD IAGLAW EM YN NYDD YL ANRHYDDIDOL R LEWIS	 YR ARWEINYDD AR RAN CYNGOR SIR CARMARTHEN	 Y CAPTEN B THORNERN AR RAN Y LLYNGES FRENHINOL	 Y LLEFFTENANT-CERNOL NI BLENKINSOP MBE AR RAN Y FYDDIN	 ARWEINYDD SG WADRON A FOX RAF AR RAN YR AWYRLU BREHINOL	 CADEIRYDD RHANBARTH DE-ORLLEWIN CYMRU AR RAN Y LLYNG-BRYDINIG
HM LORD LIEUTENANT OF DYFED THE HONOURABLE R LEWIS	LEADER ON BEHALF OF CARMARTHENSHERE COUNTY COUNCIL	CAPTAIN B THORNERN ON BEHALF OF THE ROYAL NAVY	LIEUTENANT COLONEL NI BLENKINSOP MBE ON BEHALF OF THE ARMY	SQUADRON LEADER A FOX RAF ON BEHALF OF THE ROYAL AIR FORCE	SSW DISTRICT CHAIRMAN (ON BEHALF OF THE DISTRICT REGION)
 YR ARGLWYDD IAGLAW AR RAN SSABA	 CADEIRYDD AR RAN PWYLLGOR CYNGHORI A PHENSYNAU CYN-AELODAU O'R LLUOEDD ARFOG (CYMRU)	 Y CADEIRYDD AR RAN SWRDD IECHYD HWEL DDA	 COMISIYDDYR HEDDLU A THROSDDEI DYFED-POWYS	 PRIF ARGLYGEDD AR RAN HEDDLU DYFED- POWYS	 AR RAN LLYWODRAETH CYMRU
CHAIRMAN ON BEHALF OF SSABA	CHAIR ON BEHALF OF VETERANS ADVISORY AND PENSIONS COMMITTEES (WALIS)	CHAIRMAN ON BEHALF OF HWEL DDA HEALTH BOARD	DYFED POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER	CHIEF INSPECTOR ON BEHALF OF DYFED POWYS POLICE	ON BEHALF OF WELSH GOVERNMENT
 Y RHEDIWR GORNAF ADRIAN NICHOLAS AR RAN GWASANAETH TAN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU	 RHEDIWR YR AMGYLCHEDD AR RAN ASiantaeth Yr Amgylchedd Cymru	 YMDDIRHOLWR AR RAN CAVI	 Y PRIFATHRO AR RAN COLLEG SIR GAR	 YR IS GANGHELLOR AR RAN PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWISANT	 HYRWYDDWR Y LLUOEDD ARFOG AR RAN YRADRAN GWAITH A PHENSYNAU
STATION MANAGER ON BEHALF OF MID AND WEST WALES FIRE AND RESCUE	ENVIRONMENT MANAGER ON BEHALF OF ENVIRONMENT AGENCY WALES	TRUSTEE ON BEHALF OF CAVI	PRINCIPAL ON BEHALF OF COLLEGE SIR GAR	VICE-CHANCELLOR ON BEHALF OF UNIVERSITY OF WALES TRINITY SAINT DAVID	ARMED FORCES CHAMPION ON BEHALF OF THE DEPARTMENT FOR WORK AND PENSIONS
 Y HDDEWR AFDODIATH AR RAN Y SECTOR BUSNES	 Y CYFARWYDDWR IAI A GWASANAETHAU CYMUNEDOL AR RAN CANTREF	 CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU YMGESWYR AR RAN REEMPLOY	 Y CYFARWYDDWR AR RAN GWYBODAETHU DROS BICHYD MEIDDWL - GORLLEWIN CYMRU	 ARIAN UN LLAIS CYMRU	 AELOD O'R HWEDD AR RAN GWALLA
MEMBERSHIP MANAGER ON BEHALF OF BUSINESS SECTOR	COUNTY DIRECTOR ON BEHALF OF CITIZENS ADVICE BUREAU	CANDIDATE SERVICES DIRECTOR ON BEHALF OF REEMPLOY	DIRECTOR ON BEHALF OF WEST WALES ACTION FOR MENTAL HEALTH	ON BEHALF OF UNIFAIS CYMRU	BOARD MEMBER ON BEHALF OF GWALLA
 Y CYFARWYDDWR TAI A GWASANAETHAU CYMUNEDOL AR RAN CANTREF	 HDDEWR O'R HWEDD A GWASANAETHAU CYMUNEDOL AR RAN CANTREF	 ARIAN CYMDEITHAS TEUTEULU	 Y HDDEWR AR RAN BRO MYDDIN	 HDDEWR Y GWASANAETHAU BUSNYS AR RAN UN SIR GAR	BOARD MEMBER ON BEHALF OF GWALLA
DIRECTOR OF HOUSING AND COMMUNITY SERVICES ON BEHALF OF CANTREF	DIRECTOR OF HOUSING AND COMMUNITY SERVICES ON BEHALF OF CANTREF	ON BEHALF OF FAMILY HOUSING	CHIEF EXECUTIVE ON BEHALF OF BRO MYDDIN	BUSINESS SERVICES MANAGER ON BEHALF OF UN SIR GAR	BOARD MEMBER ON BEHALF OF GWALLA



ADRAN 1: CYFRANOGWYR

Caiff Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ei wneud rhwng:

Aelodau presennol a chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd sy'n gweithio ac yn byw yn Sir Gaerfyrddin

a

Chynrychiolwyr llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog, y Bwrdd Iechyd lleol, yr Heddlu, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Gwasanaeth Tân ac Achub, y sectorau elusennol a gwirfoddol, busnesau, addysg uwch ac addysg bellach, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chymuned sifil Sir Gaerfyrddin.

ADRAN 2: EGWYDDORION CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG

- 2.1 Datganiad gwirfoddol o gydgefnogaeth rhwng cymuned sifil a'i chymuned Lluoedd Arfog leol yw Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog. Ei fwriad yw ategu Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n amlinellu'r rhwymedigaeth foesol rhwng y Genedl, y Llywodraeth, a'r Lluoedd Arfog, ar lefel leol.
- 2.2 Diben y Cyfamod Cymunedol hwn yw hyrwyddo cefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog sy'n gweithio ac yn byw yn Sir Gaerfyrddin a chydabod a chofio'r aberth a wnaed gan aelodau o'r Gymuned Lluoedd Arfog hon, yn enwedig y rhai a roddodd i'r eithaf. Mae hyn yn cynnwys aelodau'r Lluoedd Arfog a chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog, boed yn aelodau rheolaidd neu'n aelodau wrth gefn, eu teuluoedd a'u gweddwon yn Sir Gaerfyrddin.
- 2.3 Mae'r Cyfamod Cymunedol yn gyfle i Gyngor Sir Gaerfyrddin a'r sefydliadau sy'n bartneriaid iddo ddefnyddio eu gwybodaeth, eu profiad, a'u harbenigedd i ddylanwadu ar y cymorth a'r cyngor a roddir i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog.
- 2.4 O ran cymuned y Lluoedd Arfog mae'r Cyfamod Cymunedol yn hybu integreiddio rhwng bywyd yn y Lluoedd Arfog a bywyd sifil ac yn annog aelodau'r Lluoedd Arfog i helpu eu cymunedau lleol.

ADRAN 3: AMCANION A BWRIADAU CYFFREDINOL

Nodau'r Cyfamod Cymunedol

- 3.1 Mae Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn ategu egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog sy'n diffinio'r egwyddorion hirhoedlog a chyffredinol a ddylai reoli'r berthynas rhwng y Genedl, y Llywodraeth, a chymuned y Lluoedd Arfog.
- 3.2 Nod y Cyfamod Cymunedol yw annog pawb sy'n rhan o gymuned i gefnogi'r gymuned Lluoedd Arfog leol a'i gwneud yn haws i aelodau'r Lluoedd Arfog, i deuluoedd, ac i gyn-aelodau'r Lluoedd gyrchu'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan ddarparwyr statudol a chan y sectorau elusennol a gwirfoddol.
- 3.3 Bwriedir i'r cynllun fod yn drefniad dwyffordd ac anogir y Lluoedd Arfog i wneud cymaint ag y gallant i gefnogi eu cymuned ac i hyrwyddo gweithgareddau er mwyn i gymuned y Lluoedd Arfog ddod yn rhan annatod o fywyd sifil.

ADRAN 4: Mesurau

Cyfamod Cymunedol Sir Gaerfyrddin

4.1 Ein Hegwyddor

Mae'n hollbwysig ein bod yn cydnabod ac yn dathlu'r hyn y mae aelodau o Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi yn ei wneud dros bob un ohonom. Mae aberth ac ymroddiad ein cymuned Lluoedd Arfog yn golygu y dylem ni, fel sir, sicrhau nad yw unrhyw aelodau o'r Lluoedd Arfog nac aelodau sydd wedi ymddeol, boed yn aelodau rheolaidd neu wrth gefn, na chyn-aelodau a'u teuluoedd, fod o dan anfantais yn sgil gwasanaethu eu gwlad, a dylent gael eu trin yn deg ac yn briodol mewn cydnabyddiaeth o'r hyn maent wedi ei wneud drosom ni i gyd. Mae'r Cyfamod Cymunedol yn ddogfen fyw a chaiff ei hailystyried a'i diweddarau'n rheolaidd.

4.2 Datblygu'r Cyfamod

Mae datblygu Cyfamod Cymunedol Sir Gaerfyrddin wedi bod yn brosiect sirol yng ngwir ystyr y gair - sy'n adlewyrchu'r gefnogaeth sydd ym mhob cwr o'r sir i'r egwyddor y mae'r cyfamod wedi'i seilio arno.

Ar 2il Hydref 2012 daeth dros 20 o sefydliadau o'r sector cyhoeddus, o'r maes addysg bellach ac uwch, o'r sector preifat, ac o'r sector elusennol at ei gilydd i edrych ar yr hyn y mae'r Cyfamod Cymunedol yn ei olygu i Sir Gaerfyrddin. O ganlyniad i'r sesiwn hwn mae Gr p Llywio wedi'i greu.

Rôl a swyddogaeth y Gr p Llywio fydd:

- Gwella'r modd y rhennir ac y cofnodir gwybodaeth lle bo hynny'n briodol er mwyn cefnogi aelodau presennol o'r Lluoedd Arfog a chyn-aelodau, boed yn aelodau rheolaidd neu wrth gefn, a'u teuluoedd yn Sir Gaerfyrddin.
- Rhoi cymeradwyaeth a chyfeiriad strategol o ran unrhyw gynigion a wneir i'r Grant Cymunedol.
- Hyrwyddo cyfathrebu er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r gwaith a wneir o dan Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn Sir Gaerfyrddin a sicrhau bod aelodau'r Lluoedd Arfog yn gwybod â phwy i gysylltu i gael cymorth ar lefel leol.
- Derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol gan is-grwpiau.
- Byddwn yn datblygu gwefan ar y cyd ac yn hyrwyddo un rhif ffôn i fod yn borth i'r cymorth sydd ar gael gan sefydliadau perthnasol yn Sir Gaerfyrddin.

Bydd yr is-grwpiau canlynol yn cael eu sefydlu.

- Addysg, Cyflogaeth a Throsedd
- Iechyd, Lles a Hamdden
- Tai a Chymuned

Bydd yr is-grwpiau yn:

- Clustnodi anghenion aelodau a chyn-aelodau o'r Lluoedd a'u teuluoedd
- Datblygu ffyrdd o gyfeirio at y cymorth sydd ar gael
- Cydgysylltu â'r Lluoedd Arfog mewn perthynas â gwybodaeth adleoli
- Datblygu prosiectau
- Datblygu hyfforddiant lle bo'n briodol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith y gweithlu

MANYLION CYSWLLT

Cyfeiriad e-bost Tîm Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn:**covenant-mailbox@mod.uk**
Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn Sir Gaerfyrddin:

Rhif ffôn: 01267 234567

E-bost: galw@sirgar.gov.uk

Gwefan: www.lluoeddarfogsirgar.org.uk

CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Cyfamod Parhaol Rhwng

Pobl y Deyrnas Unedig
Llywodraeth Ei Mawrhydi

a –

Phawb sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu
yn Lluoedd Arfog y Goron

a'u teuluoedd

Dyletswydd gyntaf y Llywodraeth yw amddiffyn y deyrnas.

Mae ein Lluoedd Arfog yn cyflawni'r ddyletswydd honno ar ran y Llywodraeth, gan aberthu rhai elfennau o ryddid sifil, wynebu peryglon, ac ambell waith ddiodef anaf difrifol neu farwolaeth yn sgil eu dyletswyddau. Hefyd mae gan deuluoedd rôl hollbwysig o ran cynnal effeithiolrwydd gweithredol ein Lluoedd Arfog. Yn gyfnewid am hynny mae gan y genedl gyfan rwymedigaeth foesol i aelodau'r Llynges, y Fyddin, a'r Awyrlu Brenhinol, yn ogystal â'u teuluoedd. Maent yn haeddu ein parch a'n cefnogaeth, ynghyd â thriniaeth deg.

Ni ddylai'r sawl sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, boed yn rheolaidd neu wrth gefn, y sawl sydd wedi gwasanaethu yn y gorffennol, na'u teuluoedd fod o dan anfantais o gymharu â phobl eraill o ran cael gwasanaethau cyhoeddus a masnachol. Mae ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig yn achos y rhai sydd wedi rhoi i'r eithaf ac sydd wedi'u hanafu neu wedi cael profedigaeth.

Mae'r rhwymedigaeth hon yn cynnwys cymdeithas gyfan: mae'n cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennol, sefydliadau preifat, ac ymddygiad pobl wrth gefnogi'r Lluoedd Arfog. Mae cydnabod y rhai sydd wedi cyflawni dyletswydd filwrol yn uno'r wlad ac yn dangos gwerth eu cyfraniad. Ni ellir dangos hyn mewn modd cliriach na thrwy gynnal y Cyfamod hwn.